

Trosolwg o'r Broses Safleoedd Ymgeisiol

Mae'r nodyn hwn yn rhoi trosolwg o'r broses Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (LDP) diwygiedig Sir Fynwy. Mae hyn yn seiliedig ar fethodoleg Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru a baratowyd ar gyfer awdurdodau cynllunio yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru¹.

Cam 1: Galwad Dechreuol am Safleoedd Ymgeisiol

Mae Cam 1 y broses yn cynnwys galwad dechreuol am safleoedd ymgeisiol am gyfnod 16 wythnos (30 Gorffennaf i 19 Tachwedd 2018) fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i ddeall pa dir sydd ar gael i hysbysu Strategaeth a Ffefrir yr LDP. Bydd y broses hefyd yn cynorthwyo hyrwyddwyr safle gan na fyddant yn defnyddio adnoddau ar y cam hwn ar baratoi cyflwyniadau safleoedd ymgeisiol a allai fod yn groes i'r Strategaeth a Ffefrir. Bydd angen i hyrwyddwyr safle gyflwyno gwybodaeth gyfyngedig ar gyfer y galwad dechreuol yn cynnwys:

- Cynllun yn dangos ffin y safle arfaethedig mewn llinell goch. Mae angen map Ordnans Arolwg (OS) o leiaf raddfa 1:2500 sy'n dangos ffin y safle'n glir. Dylai unrhyw dir cyfagos sy'n eiddo'r un perchennog gael ei amlinellu mewn glas.
- Gwybodaeth sylfaenol ar y safle arfaethedig yn cynnwys maint y safle, defnydd(iau) cyfredol/arfaethedig y tir a chyfyngiadau hysbys. Caiff yr wybodaeth hon ei nodi yn Ffurflen Cam 1 Galwad Dechreuol am Safleoedd Ymgeisiol y gellir ei lawrlwytho o wefan y Cyngor <http://www.monmouthshire.gov.uk/cy/polisi-cynllunio-2/safleoedd-ymgeisiol>; mae copïau papur ar gael o Dderbynfa Cynllunio Neuadd y Sir Brynbuga, Hyb Cymunedol y Cyngor a llyfrgelloedd cyhoeddus.

Dylid nodi na fedrir trin yr wybodaeth a gyflwynir fel bod yn gyfrinachol.

Bydd y broses hon yn rhoi dealltwriaeth i'r Cyngor o ba dir sydd ar gael yn y Sir a galluogi dynodi lleoliadau bras ar gyfer datblygu a diogelu ar fap i hysbysu'r **Strategaeth a Ffefrir**. Pe byddai'r Cyngor yn dymuno dynodi rhai safleoedd unigol o fewn y Strategaeth y Ffefrir, gofynnir am wybodaeth ychwanegol ar ddarpariaeth a hyfywedd safle ynghyd â pharatoi'r Strategaeth a Ffefrir.

Yn dilyn y galwad dechreuol am safleoedd, caiff **Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol** ei pharatoi. Mae hyn yn cofnodi'r holl safleoedd ymgeisiol a gyflwynir a bydd yn cynnwys gwybodaeth a gyflwynir gan hyrwyddwyr safleoedd. Cyhoeddir y Gofrestr ar wefan y Cyngor a bydd ar gael i'w harchwilio yn y Dderbynfa Cynllunio Neuadd y Sir, Brynbuga. Mae'n bwysig nodi na ddylid cymryd bod cyhoeddi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn dangos mewn unrhyw ffordd y caiff y safle i ddatblygu, na y caiff ei gynnwys yn yr LDP diwygiedig, na bod y Cyngor yn ystyried y dylai gael ei ddatblygu.

Cynhelir **asesiad lefel uchel** (h.y. sifft dechreuol) ar safleoedd a gyflwynir ar y cam hwn i ddynodi unrhyw gyfyngiadau na fedrir eu goresgyn i ddatblygiad, megis risg llifogydd C2, gan roi sylw neilltuol i 'gyfyngiadau mwy na lleol' (h.y. cyfyngiadau a osodir gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru

¹ Papur Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol, Gorffennaf 2018 ar gael ar wefan y Cyngor <http://www.monmouthshire.gov.uk/cy/polisi-cynllunio-2/safleoedd-ymgeisiol> neu yn y Dderbynfa Cynllunio Neuadd y Sir Brynbuga, Hybiau Cymunedol y Cyngor a llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod oriau agor arferol.

ac yn y blaen nad ydynt yn gyfyngiadau lleol). Rhoddir ystyriaeth hefyd i os yw'r safle'n gydnaws gyda'r Strategaeth a Ffafir sy'n cael ei datblygu. Caiff unrhyw safleoedd sy'n methu'r asesiad dechreuol hwn eu hidlo allan ac ni eir â nhw ymhellach. Gellir mynd ymlaen i Gam 2 o'r safleoedd hynny sy'n bodloni'r asesiad dechreuol yma.

Cam 2: Galwad Pellach am Safleoedd Ymgeisiol a Gwybodaeth Fanwl

Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth a Ffafir, bydd proses Cam 2 Safleoedd Ymgeisiol yn dechrau am gyfnod 16 wythnos (Rhagfyr 2019 - Mawrth 2020). Bydd hyn yn cynnwys:

- Gwahoddiad i gyflwyno safleoedd ymgeisiol newydd sy'n cydnaws gyda'r Strategaeth a Ffafir. Bydd angen cyflwyno safleoedd yn defnyddio Ffurflen Cam 2 Galwad Pellach am Safleoedd Ymgeisiol.
- Cais am gyflwyno gwybodaeth fanwl ar gyfer y safleoedd hynny a gyflwynwyd yn ystod y galwad dechreuol am safleoedd sy'n gydnaws gyda'r Strategaeth a Ffafir. Mae hyn yn hanfodol er mwyn rhoi tystiolaeth os yw safle'n ymarferol ac yn hyfyw. Caiff yr wybodaeth angenrheidiol am safleoedd ei nodi yn Ffurflen 2 Galwad Pellach am Safleoedd Ymgeisiol. Ni chaiff yr wybodaeth sydd ei hangen am safleoedd fel rhan o Gam 1 nad ydynt yn mynd ymlaen drwy broses Cam 2 ei asesu ac ni chaiff ei ystyried ar gyfer ei gynnwys yn yr LDP diwygiedig.

Mae ffurflen Cam 2 yn cynnwys meini prawf manwl i gynorthwyo'r Cyngor wrth asesu os yw safleoedd ymgeisiol yn addas i'w cynnwys fel dyraniadau yn yr LDP diwygiedig. Bydd angen i gyflwyniadau safleoedd ymgeisiol ateb yr holl gwestiynau perthnasol a nodir yn y ffurflen. Os oes tebygrwydd realistig y caiff staff ei gyflenwi o fewn cyfnod y cynllun disgwylir y caiff y cwestiynau hyn eu trin. Gellir gweld drafft ffurflen Cam 2 yn Atodiad 2 y Papur Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol.

Gellir gofyn i hyrwyddwr safle gyflwyno gwybodaeth fwy manwl am hyfywedd er mwyn cefnogi eu cyflwyniad, os bydd y Cyngor angen hyn. Os na roddir yr wybodaeth a geisir am hyfywedd, mae'n annhebygol y bydd y safle arfaethedig yn symud ymlaen ymhellach yn y broses ac ni chaiff ei ystyried ar gyfer ei gynnwys yn y Cynllun.

Yn dilyn diwedd Cam 2:

- Caiff y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol ei diweddarau gydag unrhyw safleoedd ymgeisiol newydd a gyflwynir yn ystod Cam 2 a chaiff ei gyhoeddi ar gyfer dibenion gwybodaeth ar wefan y Cyngor ac yn y Dderbynfa Cynllunio Neuadd y Sir Brynbuga.
- Caiff safleoedd ymgeisiol ei asesu (fel y nodir islaw).

Cam 3: Aseidiadau Safleoedd Ymgeisiol

Caiff pob safle ymgeisiol ei asesu mewn camau a nodir ym Mhapur Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol:

- **Cam 3A:** bydd swyddogion polisi cynllunio yn cynnal asesiad manwl o safleoedd ymgeisiol yn defnyddio system cod 'goleuadau traffig'. Ar y cam hwn, caiff safleoedd hefyd eu hasesu yn defnyddio fframwaith Gwerthuso Cynaliadwyedd y Cyngor. Ar ôl cwblhau Cam 3A, bydd arwydd clir o ba safleoedd sy'n fwy addas ar gyfer datblygu yn dod i'r amlwg. Caiff y safleoedd hynny sy'n derbyn aseidiadau gwael eu dileu o'r broses.
- **Cam 3B:** caiff y safleoedd hynny a lwyddodd i fynd trwodd i Gam 3A eu hasesu gan adrannau mewnol y Cyngor (e.e. priffyrdd, addysg) ac asiantaethau statudol allanol (e.e. Dŵr Cymru).

Bwriedir i'r dull gweithredu mewn camau yma hidlo allan unrhyw safleoedd na fedrir eu cyflawni neu sy'n anaddas fel nad yw ymgynghoreion mewnol a statudol ond yn rhoi sylwadau ar safleoedd sydd â chyfle rhesymol o gael eu dyrannu yn yr LDP ac yn y pen draw gael eu cyflenwi. Cyhoeddir manylion pellach am y broses a'r meini prawf ar gyfer asesu safleoedd ei gyhoeddi maes o law.

Trosolwg o Broses Safle Ymgeisiol ac Amserlenni Disgwyliedig

